

# Categoreiddio: ymchwil a chyngor

---

Cais am dystiolaeth

## Cais am dystiolaeth

Cyhoeddwyd 11 Gorffennaf 2023

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 12 Medi 2023

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
2. Trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol.....	5
3. Rôl Ofcom o ran categoreiddio.....	10
4. Cwestiynau i randdeiliaid.....	13
A1 Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth.....	17
A2 Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori .....	20
A3 Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth.....	21

# 1. Trosolwg

- 1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, ac mae'n goruchwyllo sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau, y post, teledu a radio. Rydym yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-lein sydd wedi'u sefydlu yn y DU, gan gynnwys rhaglenni ar-alw (ODPS) a llwyfannau rhannu fideos (VSPs). Ar hyn o bryd rydym yn paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein. **Mae hwn yn gais am dystiolaeth ar yr ymchwil y mae'n rhaid i Ofcom ei wneud i helpu i baratoi ein cyngor ar gyfer categorieiddio gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y drefn Diogelwch Ar-lein.**
- 1.2 Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod llwyfannau ar-lein neilltuol fel cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau negeseuon a pheiriannau chwilio yn nodi'r risgiau i'w defnyddwyr, a bod ganddynt systemau a phrosesau i ddiogelu unigolion rhag mathau penodol o niwed ar-lein. Bydd Ofcom yn rhoi arweiniad ac yn nodi codau ymarfer ar sut gall cwmnïau o fewn y cwmpas gydymffurfio â'u dyletswyddau.
- 1.3 Rhaid i'r holl wasanaethau sydd o fewn cwmpas y drefn Diogelwch Ar-lein ddiogelu holl ddefnyddwyr y DU rhag cynnwys anghyfreithlon a, lle bo hynny'n berthnasol, amddiffyn plant rhag niwed ar-lein penodol. Bydd rhai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu categorieiddio a'u dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B os ydynt yn bodloni trothwyon penodol a nodir mewn is-ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth. Bydd gofyn i'r gwasanaethau hyn sy'n cael eu categorieiddio gydymffurfio â gofynion ychwanegol (gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau tryloywder).
- 1.4 Ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein ddod i rym, bydd yn rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i helpu i gynghori'r Llywodraeth ar yr amodau trothwy ar gyfer pob categori o wasanaeth. Bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r cyngor hwn i bennu'r trothwyon i'w gosod mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd Ofcom wedyn yn ystyried y trothwyon hyn ac yn llunio rhestr o wasanaethau wedi'u categorieiddio. Bydd y gofrestr gyhoeddedig o wasanaethau wedi'u categorieiddio yn pennu pa gwmnïau sydd angen cydymffurfio â'r dyletswyddau ychwanegol.
- 1.5 Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn helpu i fod yn sail ar gyfer cyngor Ofcom i'r Llywodraeth. Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth gan randdeiliaid i helpu i lywio ein hymchwil a nodir isod. Byddwn wedyn yn defnyddio'r ymatebion i lywio ein hymchwil ac, yn y pen draw, ein cyngor i'r Llywodraeth ar gategoreiddio. Mae [map ar gyfer rheoleiddio](#) diweddaraf Ofcom yn rhoi rhagor o gefndir i baratoadau Ofcom ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein.
- 1.6 Byddem yn croesawu ymatebion gan randdeiliaid sydd â diddordeb. Mae cwestiynau i randdeiliaid yn adran 4. **Bydd y cais hwn am dystiolaeth yn dod i ben ar 12 Medi 2023.**

## Yr hyn rydym yn chwilio am farn amdano

Pwrpas y cais hwn am dystiolaeth yw rhoi cyfle i'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth y gall Ofcom eu hystyried wrth gynnal ein hymchwil.

Bydd amodau trothwy Categori 1 a 2B yn cael eu gosod drwy gyfeirio at rifau defnyddwyr a swyddogaethau. Yn yr un modd, mae amodau trothwy categori 2A yn cynnwys niferoedd defnyddwyr. Rydym yn gofyn am dystiolaeth a barn gan y diwydiant a rhanddeiliaid eraill am y canlynol:

- **Mesur rhifau defnyddwyr**

- **Categori 1:** Ymchwil a thystiolaeth sy'n ymwneud â pha mor hawdd, cyflym a helaeth y mae cynnwys yn cael ei ledaenu ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (U2U), a hynny o ran y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath, eu swyddogaethau, a nodweddion eraill.
- **Categori 2A:** Ymchwil a thystiolaeth sy'n ymwneud â pha mor gyffredin yw cynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon neu'n niweidiol i blant, o ran nifer y defnyddwyr gwasanaethau chwilio, a nodweddion eraill.
- **Categori 2B:** Ymchwil a thystiolaeth sy'n ymwneud â lledaenu cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant ar wasanaethau U2U, o ran y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath, eu swyddogaethau, a nodweddion eraill.

## 2. Trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol<sup>1</sup>

- 2.1 Yn yr adran hon, rydym yn darparu crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer categoreiddio. Mae Pennod 2 o Ran 7 ac Atodlen 11 i'r Bil Diogelwch Ar-lein yn nodi'r broses ar gyfer sut bydd gwasanaethau'n cael eu categoreiddio o dan y drefn newydd.<sup>2</sup> Yn adran 3 y ddogfen hon, rydym yn nodi rôl Ofcom o ran categoreiddio.

### Rôl categoreiddio

---

- 2.2 Bydd yr holl wasanaethau sydd o fewn cwmpas y drefn Diogelwch Ar-lein yn ddarostyngedig i ddyletswyddau mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a, lle bo hynny'n berthnasol, dyletswyddau mewn perthynas ag amddiffyn plant rhag cynnwys niweidiol.
- 2.3 Bydd rhai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B os ydynt yn bodloni trothwyon penodol a nodir mewn is-ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth. Bydd yn rhaid i'r gwasanaethau hyn gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch ar-lein ychwanegol.

### Diffiniadau allweddol sy'n ymwneud â chategoreiddio

---

- 2.4 Yn fras, mae **gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (U2U)** yn wasanaeth ar-lein lle gall defnyddwyr ddod ar draws cynnwys (fel negeseuon, delweddau, fideos a sylwadau) sydd wedi cael ei greu, ei lwytho i fyny neu ei rannu gan ddefnyddwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n caniatáu negeseuon preifat rhwng defnyddwyr. Mae rhai mathau penodol o wasanaethau wedi eu heithrio o'r drefn.
- 2.5 Mae **gwasanaeth chwilio** yn wasanaeth ar-lein gyda **pheiriant chwilio** sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio mwy nag un wefan a/neu gronfa ddata.
- 2.6 Mae gwasanaeth U2U neu wasanaeth chwilio yn cael ei reoleiddio at ddibenion y drefn os oes **ganddo gysylltiadau â'r Deyrnas Unedig**, ac nad yw wedi'i **ieithrio** fel arall.<sup>3</sup> At y dibenion hyn, ystyrir bod gan wasanaeth gysylltiadau â'r Deyrnas Unedig os oes ganddo nifer sylweddol o ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig neu os yw defnyddwyr o'r fath yn un o'r marchnadoedd targed ar gyfer y gwasanaeth (neu'r unig farchnad darged). Caiff gwasanaeth

---

<sup>1</sup> Mae'r canlynol yn seiliedig ar fersiwn y Bil Diogelwch Ar-lein fel y'i diwygiwyd ym Mhwyllgor Tŷ'r Arglwyddi (22 Mehefin 2023).

<sup>2</sup> Mae cymal 88 yn gosod dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi rhestr o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg.

<sup>3</sup> Gweler Atodlen 1, sy'n disgrifio gwasanaethau sydd wedi'u heithrio, gan gynnwys gwasanaethau e-bost, MMS, SMS a swyddogaethau cyfyngedig, gwasanaethau sy'n cynnig cyfathrebu clywedol byw un-i-un yn unig, gwasanaethau busnes mewnol, a rhai gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus, a'r sectorau addysg a gofal plant. Gweler hefyd Atodlen 2 sy'n disgrifio gwasanaethau sy'n cyfuno cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr neu gynnwys chwilio nad yw'n cael ei reoleiddio gan y Bil â chynnwys pornograffig sy'n cael ei reoleiddio. Efallai y bydd eithriad dros dro hefyd ar gyfer y gwasanaethau hynny sy'n cael eu hysbysu fel Llwyfannau Rhannu Fideo (VSP) o dan [ein trefn VSP](#). Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn golygu eithriad llawn pan fydd darparwr gwasanaeth wedi rhoi gwybod am wasanaeth rhannol ddatgysylltiol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [ein gwefan](#).

ei drin felly hefyd os oes modd i unigolion ddefnyddio'r gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig, a bod risg o niwed i unigolion sy'n deillio o gynnwys sy'n bresennol ar y gwasanaeth dan sylw.

- 2.7 Mae **nifer y defnyddwyr** yn cyfeirio at ddefnyddwyr y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio'r gwasanaeth U2U neu beiriant chwilio.<sup>4</sup> At y dibenion hyn, gall 'defnyddiwr y Deyrnas Unedig' fod naill ai'n unigolyn yn y DU neu'n endid sydd wedi'i ffurfio yn y DU. Yn y naill achos neu'r llall, does dim ots a yw'r person wedi'i gofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth.<sup>5</sup>
- 2.8 **Mae rhan U2U o wasanaeth**, mewn perthynas â gwasanaeth U2U, yn rhan o'r gwasanaeth lle mae cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr mewn perthynas â'r gwasanaeth yn bresennol.<sup>6</sup>
- 2.9 Ystyr **cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr**, mewn perthynas â gwasanaeth U2U, yw cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, neu sy'n cael ei lwytho i fyny neu ei rannu ar y gwasanaeth gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, y gall un neu fwy o ddefnyddwyr eraill o'r fath ddod ar ei draws.<sup>7</sup>
- 2.10 Mae **swyddogaeth** mewn perthynas â gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr yn cynnwys unrhyw nodwedd sy'n galluogi rhyngweithio o unrhyw fath rhwng defnyddwyr y gwasanaeth drwy gyfrwng y gwasanaeth.<sup>8</sup> Mewn perthynas â gwasanaeth chwilio, mae 'swyddogaeth' yn cynnwys (yn benodol) nodweddion sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau neu gronfeydd data, a nodweddion sy'n cynnig awgrymiadau yn ymwneud â cheisiadau chwilio defnyddwyr (swyddogaeth chwilio rhagfynegol).
- 2.11 At ddibenion categoreiddio, mae **nodweddion** rhan U2U o wasanaeth neu beiriant chwilio yn cynnwys ei sylfaen defnyddwyr, model busnes, llywodraethu a systemau a phrosesau eraill.<sup>9</sup>

## Categoriâu gwasanaeth

---

- 2.12 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod trothwyon ar gyfer categori 1, 2A a 2B mewn is-ddeddfwriaeth, yn dilyn yr ymchwil a wnaed, a'r cyngor a ddarparwyd, gan Ofcom.
- 2.13 Mae **gwasanaethau categori 1** yn wasanaethau U2U sy'n cael eu rheoleiddio, ac maen nhw'n bodloni amodau trothwy categori 1. Rhaid i'r rhain gynnwys o leiaf un amod trothwy sy'n ymwneud â nifer defnyddwyr rhan U2U y gwasanaeth, ac o leiaf un sy'n ymwneud â swyddogaethau rhan U2U y gwasanaeth. Efallai y bydd amodau trothwy ychwanegol yn ymwneud â nodweddion eraill hefyd, os yw'n berthnasol. Wrth osod amodau trothwy, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried effaith debygol nifer y defnyddwyr a swyddogaethau rhan U2U y gwasanaeth ar ba mor hawdd, cyflym a helaeth y mae cynnwys yn cael ei ledaenu ar y gwasanaethau.
- 2.14 Gwasanaethau chwilio ydy **gwasanaethau categori 2A** sy'n bodloni amodau trothwy categori 2. Rhaid i'r rhain gynnwys o leiaf un amod trothwy sy'n ymwneud â nifer

---

<sup>4</sup> Paragraff 5 o Atodlen 11 i'r Bil.

<sup>5</sup> Mae rhai eithriadau sy'n gymwys pan fo'r unigolyn dan sylw yn gweithredu mewn cyswllt busnes.

<sup>6</sup> Cymal 211

<sup>7</sup> Mae cynnwys o'r fath i'w ddehongli fel cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sy'n cael ei reoleiddio os yw'n bodloni'r diffiniad yng nghymal 49(2), sy'n eithrio mathau penodol o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, er enghraifft, negeseuon e-bost, SMS, MMS a chynnwys cyhoeddwr newyddion (ymysg eraill).

<sup>8</sup> Cymal 204

<sup>9</sup> Paragraff 6 o Atodlen 11 i'r Bil.

defnyddwyr y gwasanaeth chwilio. Efallai y bydd amodau trothwy ychwanegol yn ymwneud â nodweddion eraill hefyd, os yw'n berthnasol. Wrth osod yr amodau hyn, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr effaith debygol y gallai nifer defnyddwyr y peiriant chwilio ei chael ar lefel y risg o niwed i unigolion o gynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon neu gynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant.

- 2.15 Mae **gwasanaethau categori 2B** yn cael eu diffinio fel gwasanaethau U2U sy'n cael eu rheoleiddio, ac maen nhw'n bodloni amodau trothwy categori 2B. Rhaid i'r amodau hyn gynnwys o leiaf un trothwy sy'n ymwneud â nifer defnyddwyr rhan U2U y gwasanaeth ac o leiaf un amod trothwy sy'n ymwneud â swyddogaethau'r rhan honno o'r gwasanaeth. Efallai y bydd amodau trothwy ychwanegol yn ymwneud â nodweddion eraill hefyd, os yw'n berthnasol. Wrth osod yr amodau hyn, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr effaith debygol y gallai nifer y defnyddwyr a swyddogaethau rhan U2U y gwasanaeth ei chael ar lefel y risg o niwed i unigolion o gynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant sy'n cael ei ledaenu gan y gwasanaeth.
- 2.16 Bydd **gwasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg** yn wasanaethau U2U sy'n bodloni 75% o drothwy nifer defnyddwyr categori 1 ac o leiaf un trothwy swyddogaeth ar gyfer categori 1.<sup>10</sup>

## Dyletswyddau ar gyfer pob categori o wasanaeth<sup>11</sup>

---

- 2.17 Bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n cael eu categoreiddio naill ai yng nghategori 1, 2A neu 2B gydymffurfio â'r dyletswyddau ychwanegol canlynol o dan y drefn diogelwch ar-lein. Bydd pob dyletswydd yn berthnasol i'r holl wasanaethau mewn unrhyw gategori penodol.

## Dyletswyddau ar gyfer categorïau 1, 2A a 2B

- 2.18 **Adrodd ar dryloywder:** rhaid i wasanaethau gyhoeddi adroddiadau tryloywder blynyddol sy'n seiliedig ar hysbysiadau tryloywder a gyhoeddir i bob gwasanaeth gan Ofcom unwaith y flwyddyn.<sup>12</sup>

## Dyletswyddau ar gyfer categorïau 1 a 2A

- 2.19 **Hysbysebu twyllodrus:** rhaid i wasanaethau atal defnyddwyr rhag dod ar draws hysbysebion twyllodrus ar y gwasanaeth, lleihau faint o amser mae hysbysebion twyllodrus ar y gwasanaeth, a dileu hysbysebion twyllodrus yn gyflym pan fyddant yn cael gwybod amdanynt.<sup>13</sup>

## Dyletswyddau ar gyfer categori 1 yn unig

- 2.20 Mae amrywiaeth o ddyletswyddau a fydd yn berthnasol i wasanaethau categori 1 yn unig. Mae'r dyletswyddau allweddol fel a ganlyn:

---

<sup>10</sup> Mae [Nodiadau Esboniadol](#) drafft y Bil yn egluro mai pwrpas hyn yw sicrhau bod Ofcom yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod gwasanaethau sy'n tyfu'n gyflym a'i fod yn barod i asesu ac ychwanegu'r cwmnïau hyn at gofrestr categori 1 yn ddi-oed.

<sup>11</sup> Mae'r canlynol yn seiliedig ar fersiwn y Bil Diogelwch Ar-lein fel y'i diwygiwyd ym Mhwyllgor Tŷ'r Arglwyddi (22 Mehefin 2023).

<sup>12</sup> Cymal 68

<sup>13</sup> Cymalau 33-35

- a) **Telerau Gwasanaeth:** rhaid i wasanaethau gael systemau a phrosesau cymesur i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'i delerau wrth dynnu i lawr neu gyfyngu mynediad at gynnwys U2U sy'n cael ei reoleiddio neu wrth osod sancsiynau.<sup>14</sup> Rhaid i delerau o'r fath fod yn glir ac yn hygyrch, a chael eu defnyddio'n gyson.
- b) **Dilysu pwy yw'r defnyddiwr:** rhaid i'r gwasanaethau gynnig yr opsiwn i bob oedolyn ddilysu pwy ydynt.<sup>15</sup>
- c) **Grymuso defnyddwyr:** bydd dyletswydd ar wasanaethau i roi mwy o reolaeth i oedolion dros fathau penodol o gynnwys (fel cynnwys sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio) yn ogystal â chynnwys gan ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u dilysu ar wasanaeth. Rhaid sicrhau ei bod hi'n hawdd cael mynediad at y nodweddion hyn.<sup>16</sup>
- d) **Cynnwys o bwysigrwydd democrataidd:** wrth gymedroli cynnwys o bwysigrwydd democrataidd, mae'n rhaid i wasanaethau wneud yn siŵr eu bod yn ystyried pwysigrwydd rhyddid mynegiant yn enwedig wrth ystyried tynnu cynnwys i lawr neu gyfyngu mynediad defnyddwyr a gosod sancsiynau ar ddefnyddwyr am rannu cynnwys o'r fath.<sup>17</sup>
- e) **Cynnwys cyhoeddwr newyddion:** rhaid i wasanaethau gymryd camau cyn gweithredu mewn perthynas â chyhoeddwr newyddion cydnabyddedig, neu mewn perthynas â chynnwys cyhoeddwr newyddion.<sup>18</sup>
- f) **Cynnwys newyddiadurol:** wrth gymedroli cynnwys newyddiadurol, mae'n rhaid i wasanaethau wneud yn siŵr eu bod yn ystyried pwysigrwydd rhyddid mynegiant yn enwedig wrth ystyried tynnu cynnwys i lawr neu gyfyngu mynediad defnyddwyr a gosod sancsiynau ar ddefnyddwyr am rannu cynnwys o'r fath.<sup>19</sup>
- g) **Ymdrin â chwynion:** rhaid i wasanaethau sefydlu trefn gwyno i ymdrin â chwynion gan ddefnyddwyr a'r bobl yr effeithir arnynt sy'n ystyried nad yw'r darparwr yn cydymffurfio â dyletswyddau penodol (categori 1).<sup>20</sup>

## Perthynas â rhannau eraill o'r drefn Diogelwch Ar-lein

- 2.21 Fel y disgrifir uchod, categoreiddio yw'r broses ffurfiol lle bydd rhai gwasanaethau rheoledig yn cael eu dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B a bydd dyletswyddau ychwanegol yn cael eu dyrannu iddynt.
- 2.22 Byddwn yn cyhoeddi dogfennau ar wahân am y dyletswyddau sy'n berthnasol i wasanaethau wedi'u categoreiddio. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cais arall am dystiolaeth ynghylch sylwedd y dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio yn yr hydref 2023 (ac eithrio tryloywder – gweler isod), a byddwn yn ymgynghori ar y dyletswyddau hyn unwaith yn cyhoeddir y gofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio.
- 2.23 Yn y gwanwyn 2024, bydd Ofcom hefyd yn ymgynghori ar ei ganllawiau tryloywder ar wahân, a fydd yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i benderfynu pa wybodaeth y mae'n rhaid i

<sup>14</sup> Cymal 64-65

<sup>15</sup> Cymal 57

<sup>16</sup> Cymal 12

<sup>17</sup> Cymal 13

<sup>18</sup> Cymal 14

<sup>19</sup> Cymal 15

<sup>20</sup> Cymal 65(6)-(8). Mae hyn yn ymwneud â'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â grymuso defnyddwyr, cynnwys o bwysigrwydd democrataidd, cynnwys newyddiadurol a rhyddid mynegiant. Mae gofyniad tebyg o ran ymdrin â chwynion hefyd yn berthnasol i'r dyletswyddau telerau gwasanaeth categori 1 a amlinellir ym mharagraff (a).



bob gwasanaeth ei chyhoeddi yn ei adroddiad tryloywder blynyddol. Ar ôl cyhoeddi'r gofrestr o wasanaethau wedi'u categorio, bydd Ofcom yn cyhoeddi hysbysiadau tryloywder i wasanaethau yng nghategoriâu 1, 2A a 2B.

- 2.24 Mae categorio yn broses statudol ac mae ar wahân i weithgareddau eraill y mae'n rhaid i Ofcom eu gwneud, neu y mae'n dewis eu gwneud, mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys trefn ffioedd y dyfodol a'n swyddogaeth goruchwyllo (gweler ein Map ar gyfer rheoleiddio i gael rhagor o wybodaeth).
- 2.25 Bydd ffioedd yn berthnasol i bob gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio ac sy'n bodloni neu'n rhagori ar drothwy refeniw byd-eang cymwys, ac nad ydynt wedi'u heithrio.<sup>21</sup> Bydd ffioedd yn cael eu codi ar wasanaethau sydd wedi'u categorio dim ond os ydynt yn cyrraedd y trothwy refeniw byd-eang cymwys ac nad ydynt yn dod o dan unrhyw eithriad a bennir yn nhrefn gyllido'r dyfodol.
- 2.26 Nod ein gweithgareddau goruchwyllo fydd meithrin perthynas agos ac effeithiol gyda rhai gwasanaethau rheoledig cyrhaeddiad uchel neu risg uchel. Drwy oruchwyllo, ein nod yw deall y mesurau diogelu sydd ar waith ar gyfer defnyddwyr, asesu pa mor effeithiol ydynt o ran cadw defnyddwyr yn ddiogel a, lle bo angen, annog gwelliannau. Byddwn yn dechrau'r gweithgareddau goruchwyllo yn ystod y misoedd ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.
- 2.27 Mae'n debygol y bydd y gofrestr ar gyfer gwasanaethau wedi'u categorio yn cael ei sefydlu unwaith y bydd Ofcom eisoes wedi dechrau goruchwyllo rhai o'r gwasanaethau. Mae categorio yn broses ar wahân sy'n debygol o chwarae rhan yn ein penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch pa wasanaethau y byddwn yn eu goruchwyllo; ond efallai na fydd gwasanaeth wedi'i categorio o reidrwydd yn cael ei oruchwyllo, na gwasanaeth dan oruchwyllo o reidrwydd yn cael ei categorio.

---

<sup>21</sup> Cymalau 74-75

## 3. Rôl Ofcom o ran categoreiddio

- 3.1 Ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein ddod i rym, bydd yn rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr amodau trothwy ar gyfer pob categori o wasanaeth. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio'r cyngor hwn i bennu'r trothwyon hyn mewn is-ddeddfwriaeth.
- 3.2 Ar ôl hyn, bydd Ofcom yn asesu darparwyr yn erbyn yr amodau trothwy perthnasol ar gyfer pob categori o wasanaeth ac yn cyhoeddi cofrestr o wasanaethau wedi'u categoreiddio a rhestr o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg. Wedyn mae'n rhaid i Ofcom gadw'r gofrestr a diweddarau'r rhestr o wasanaethau categori 1 sy'n dod i'r amlwg fel y bo'n briodol.

### Ymchwil Ofcom

- 3.3 Mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymchwil ar yr amodau trothwy ar gyfer categori 1, categori 2A a categori 2B o fewn chwe mis i'r Cydsyniad Brenhinol:<sup>22 23</sup>

#### Categori 1

Mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i'r canlynol:

- pa mor hawdd, cyflym a helaeth y mae cynnwys rheoledig a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn cael ei ledaenu gan wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr rheoledig;
- nifer y defnyddwyr a swyddogaethau rhan U2U gwasanaethau o'r fath; a
- nodweddion neu ffactorau eraill sy'n ymwneud â rhan U2U gwasanaethau o'r fath y mae Ofcom yn ystyried eu bod yn berthnasol i amodau trothwy categori 1.

#### Categori 2A

Rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i'r agweddau canlynol ar beiriant chwilio gwasanaethau chwilio a gwasanaethau cyfun rheoledig:

- pa mor gyffredin ydy cynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon a chynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant;
- nifer defnyddwyr y peiriant chwilio; a
- nodweddion neu ffactorau eraill y mae Ofcom yn ystyried eu bod yn berthnasol i amodau trothwy categori 2A

#### Categori 2B

Mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i'r canlynol:

- lledaenu cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant gan wasanaethau U2U rheoledig;
- nifer y defnyddwyr a swyddogaethau rhan U2U gwasanaethau o'r fath; a

<sup>22</sup> Gweler Atodlen 11 y Bil am ragor o fanylion.

<sup>23</sup> Mae diffiniad o'r termau perthnasol ym mharagraffau 2.4-2.11.

- nodweddion eraill y mae Ofcom yn ystyried eu bod yn berthnasol i amodau trothwy categori 2B.

3.4 Pwrpas y cais hwn am dystiolaeth yw rhoi cyfle i'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth y gall Ofcom eu hystyried wrth gynnal ei ymchwil.

## Cyngor Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol

3.5 Ar ôl i Ofcom wneud ei waith ymchwil, yn seiliedig ar y canfyddiadau, byddwn yn paratoi cyngor ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol ar yr amodau trothwy ar gyfer pob categori.

### Amodau trothwy categori 1

Rhaid i Ofcom argymhell o leiaf un trothwy ar gyfer y ddau amod canlynol:

- Nifer defnyddwyr rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth;
- Swyddogaethau'r rhan honno o'r gwasanaeth.

Efallai y bydd Ofcom yn argymhell trothwyon pellach mewn perthynas ag unrhyw nodwedd neu ffactor arall sy'n ymwneud â rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth sy'n berthnasol yn ein barn ni.

### Amodau trothwy categori 2A

Rhaid i Ofcom argymhell o leiaf un trothwy ar gyfer nifer defnyddwyr y peiriant chwilio.

Efallai y bydd Ofcom yn argymhell trothwyon pellach mewn perthynas ag unrhyw nodwedd neu ffactor arall sy'n ymwneud â'r peiriant chwilio sy'n berthnasol yn ein barn ni.

### Amodau trothwy categori 2B

Rhaid i Ofcom argymhell o leiaf un trothwy ar gyfer y ddau amod canlynol:

- Nifer defnyddwyr rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth;
- Swyddogaethau'r rhan honno o'r gwasanaethau.

Efallai y bydd Ofcom yn argymhell trothwyon pellach mewn perthynas ag unrhyw nodwedd neu ffactor arall sy'n ymwneud â rhan defnyddiwr-i-ddefnyddiwr y gwasanaeth sy'n berthnasol yn ein barn ni.

3.6 Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei gyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i ni ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.7 Wedyn mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried ein cyngor wrth benderfynu ar y trothwyon categoreiddio penodol. Os yw'r trothwyon hyn yn wahanol iawn i gyngor Ofcom, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi datganiad sy'n cyfiawnhau'r penderfyniad hwn.

## Sefydlu'r gofrestr a'r rhestr o wasanaethau sy'n dod i'r amlwg

---

- 3.8 Rhaid i Ofcom sefydlu cofrestr sy'n cynnwys pob categori gwasanaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r amodau trothwy gael eu gosod mewn is-ddeddfwriaeth. Hefyd mae angen i ni gyhoeddi a chadw rhestr o 'wasanaethau sy'n dod i'r amlwg' sy'n bodloni 75% o drothwy nifer defnyddwyr categori 1 ac o leiaf un trothwy swyddogaeth ar gyfer categori 1.
- 3.9 Rydym yn bwriadu gofyn am wybodaeth gan wasanaethau penodol i'w hasesu yn erbyn y trothwyon a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ychwanegu pob gwasanaeth sy'n bodloni'r amod at ran berthnasol y gofrestr.

## Cadw'r gofrestr a'r rhestr o wasanaethau sy'n dod i'r amlwg

---

- 3.10 Ar ôl cyhoeddi'r gofrestr mae'n rhaid i Ofcom ei chynnal yn barhaus, a bydd gan wasanaethau'r hawl i ofyn am gael eu tynnu oddi ar y gofrestr os ydynt yn teimlo bod amgylchiadau wedi newid ers iddynt gael eu hasesu am y tro cyntaf. Os bydd unrhyw un o'r amodau trothwy yn cael eu diwygio mewn is-ddeddfwriaeth, bydd yn rhaid i ni ailasesu'r cofnodion perthnasol ar y gofrestr.

## Tynnu oddi ar y gofrestr ac apeliadau

---

- 3.11 Os bydd darparwr gwasanaeth yn credu nad yw ei wasanaeth wedi'i gategoreiddio yn bodloni'r trothwyon perthnasol mwyach, gall ofyn i Ofcom ei dynnu oddi ar y gofrestr, ar sail tystiolaeth.<sup>24</sup>
- 3.12 Gall darparwyr gwasanaethau hefyd gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniadau Ofcom ynghylch categorieiddio. Mae hyn yn cynnwys unrhyw benderfyniadau lle mae cwmnïau yn cael eu rhoi yng nghategoriâu 1, 2A a 2B yn ogystal â phenderfyniadau i beidio â thynnu gwasanaethau oddi ar y gofrestr yn dilyn cais gan ddarparwyr gwasanaethau.<sup>25</sup>

## Newid trothwyon categorïau

---

- 3.13 Ar ôl gosod yr amodau trothwy cyntaf, gall Ofcom ymgymryd â rhagor o waith ymchwil – boed hynny ar ei liwt ei hun neu mewn ymateb i gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol – at ddibenion cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a yw'r amodau trothwyon presennol yn dal i fod yn briodol.
- 3.14 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried unrhyw gyngor pellach gan Ofcom a chyhoeddi datganiad sy'n egluro unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth argymhelliad Ofcom.

---

<sup>24</sup> Cymal 87

<sup>25</sup> Cymal 148

## 4. Cwestiynau i randdeiliaid

- 4.1 Rydym yn gofyn am dystiolaeth a sylwadau gan randdeiliaid ynghylch ffactorau sy'n ymwneud â'r ymchwil y bydd yn rhaid i Ofcom ei wneud o ran categoreiddio. Yn anad dim, rydym yn awyddus i ddeall sut mae'r diwydiant yn delio ac yn mesur nifer y defnyddwyr a swyddogaethau ar eu gwasanaethau, er mwyn bod yn sail i drothwyon sy'n wrthrychol ac yn fesuradwy.
- 4.2 Mae cwestiynau 1-5 wedi'u targedu at ddarparwyr gwasanaethau U2U a chwilio. Mae cwestiynau 6-13 yn berthnasol i bob rhanddeiliad. Rydym yn gofyn i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein ymateb mewn perthynas â'u gwasanaeth(au) eu hunain, lle bo hynny'n briodol. Mae'r diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i'r cwestiynau hyn wedi'u nodi ym mharagraffau 2.4-2.11.
- 4.3 Rydym yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau isod ac, ar ben hynny, byddem hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol y mae rhanddeiliaid yn teimlo y gallai fod yn berthnasol i Ofcom wrth gynnal ymchwil at y dibenion hyn.

### Defnyddiwr rhan U2U y gwasanaeth

- 4.4 Ar ôl gosod trothwyon, er mwyn penderfynu pa wasanaethau rheoledig sy'n mynd heibio i'r trothwy o ran nifer defnyddwyr, bydd yn rhaid i Ofcom asesu nifer defnyddwyr y mathau canlynol o wasanaethau rheoledig ar:
- rhan U2U gwasanaeth rheoledig; neu
  - beiriant chwilio gwasanaeth chwilio; neu
  - beiriant chwilio gwasanaeth cyfun.

#### **Cwestiwn 1:** Sut ydych chi'n mesur nifer y defnyddwyr ar eich gwasanaeth?

- Pwy sy'n cyfrif fel defnyddiwr at y dibenion hynny? Er enghraifft, a yw defnyddwyr yn cael eu diffinio fel unigolion sy'n ymweld â'r gwasanaeth, unigolion sy'n rhyngweithio â'r gwasanaeth, unigolion sydd â chyfrif â'r gwasanaeth, neu unigolion sy'n gofyn am y gwasanaeth i ddangos gwybodaeth. Os ydych chi'n mesur defnyddwyr ar eich gwasanaeth mewn mwy nag un ffordd, cofiwch gynnwys pob dull perthnasol.
- Pa mor aml ydych chi'n mesur nifer y defnyddwyr ar eich gwasanaeth? Er enghraifft, misol.
- Ydych chi'n dad-ddyblygu<sup>26</sup> nifer y defnyddwyr yn eich mesuriadau? Os felly, sut?
- Ydych chi'n mesur gwahanol unedau daeryddol mewn perthynas â nifer y defnyddwyr? Er enghraifft, gwlad, rhanbarth, marchnad, byd-eang, dinas.
- Ydych chi'n dadansoddi nifer y defnyddwyr ar eich gwasanaeth yn ôl oedran? Er enghraifft, defnyddwyr sy'n blant.

<sup>26</sup> Er enghraifft, osgoi cyfrif yr un unigolyn ddwywaith am ei fod yn defnyddio'r gwasanaeth o fwy nag un ddyfais neu gyfeiriad IP.

**Cwestiwn 2:** Os yw eich gwasanaeth yn cynnwys rhan lle mae cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn bresennol a rhan lle nad yw cynnwys o'r fath yn bresennol, ydych chi'n gallu gwahaniaethu rhwng defnyddwyr gwahanol rannau'r gwasanaeth? Os felly, sut ydych chi'n gwahaniaethu (gan gynnwys dros gyfnod penodol o amser)?

**Cwestiwn 3:** Sut ydych chi'n mesur gwahanol segmentau o ddefnyddwyr ar eich gwasanaeth?

- Ydych chi'n segmentu ffigurau mesur defnyddwyr yn ôl gwahanol rannau eich gwasanaeth? Er enghraifft, yn ôl y wefan yn erbyn yr ap, yn ôl cynnyrch, uned fusnes.
- Ydych chi'n segmentu ffigurau mesur defnyddwyr yn ôl gwahanol fathau o ddefnyddwyr? Er enghraifft: crewyr, deiliaid cyfrifon, defnyddwyr gweithredol.
- Faint o hyblygrwydd sydd gan eich system mesur defnyddwyr i ddiffinio segmentau newydd neu benodol?

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cyhoeddi unrhyw wybodaeth ynghylch nifer y defnyddwyr ar eich gwasanaeth?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cyfrannu unrhyw ddata am niferoedd defnyddwyr at ffynonellau/cronfeydd data allanol, neu'n helpu systemau mesur y diwydiant drwy dagio neu rannu data mesur defnyddwyr? Os nad ydych, beth sy'n eich rhwystro rhag gwneud hynny?

## Defnyddiwr rhan U2U y gwasanaeth

4.5 Ar gyfer categori 1, mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i'r canlynol:

- i) pa mor hawdd, cyflym a helaeth y mae cynnwys yn cael ei ledaenu gan wasanaethau U2U rheoledig;
- ii) nifer y defnyddwyr a swyddogaethau rhan U2U gwasanaethau o'r fath; a
- iii) chyfrwy nodweddion eraill y rhan honno o wasanaethau neu ffactorau o'r fath mewn perthynas â'r rhan honno o wasanaethau o'r fath y mae Ofcom yn ystyried eu bod yn berthnasol wrth fynd ati i nodi amodau trothwy categori 1.

4.6 Ar gyfer categori 2B, mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i'r canlynol:

- i) lledaenu cynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant drwy wasanaethau U2U rheoledig;
- ii) nifer y defnyddwyr a swyddogaethau rhan U2U y gwasanaethau; a
- iii) nodweddion neu ffactorau eraill y mae Ofcom yn ystyried eu bod yn berthnasol wrth fynd ati i nodi amodau trothwy categori 2B

4.7 Mae 'swyddogaeth' mewn perthynas â gwasanaeth U2U yn cynnwys unrhyw nodwedd sy'n galluogi rhyngweithio o unrhyw fath rhwng defnyddwyr y gwasanaeth drwy gyfrwng y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, swyddogaethau sy'n galluogi chwilio am gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, rhannu cynnwys â defnyddwyr eraill, anfon negeseuon uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill, tanysgrifio i gynnwys neu

ddefnyddwyr eraill, a newid gosodiadau sy'n effeithio ar y ffordd mae cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn cael ei gyflwyno.<sup>27</sup>

- 4.8 Mae nodweddion eraill ar gyfer categori 1 a 2B yn cynnwys sylfaen defnyddwyr, model busnes, llywodraethu a systemau a phrosesau eraill.

Rydym yn croesawu ymatebion gan bob rhanddeiliaid sydd â gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol. Rydym yn gofyn i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein ymateb mewn perthynas â'u gwasanaeth(au) eu hunain, lle bo hynny'n briodol.

**Cwestiwn 6:** A oes gennych chi dystiolaeth o swyddogaethau a allai effeithio ar ba mor hawdd, cyflym a helaeth y mae cynnwys yn cael ei ledaenu ar wasanaethau U2U?

- A oes swyddogaethau penodol sy'n golygu bod modd i gynnwys gael ei ledaenu'n hawdd ar wasanaethau U2U?
- A oes swyddogaethau penodol sy'n golygu bod modd i gynnwys gael ei ledaenu'n gyflym ar wasanaethau U2U?
- A oes swyddogaethau penodol sy'n golygu bod modd i gynnwys gael ei ledaenu'n helaeth ar wasanaethau U2U?
- A oes swyddogaethau penodol sy'n atal cynnwys rhag cael ei ledaenu'n hawdd, cyflym a helaeth ar wasanaethau U2U?

**Cwestiwn 7:** A oes gennych chi dystiolaeth yn ymwneud â'r berthynas rhwng niferoedd defnyddwyr, swyddogaethau a pha mor hawdd, cyflym a helaeth y mae cynnwys yn cael ei ledaenu ar wasanaethau U2U?

**Cwestiwn 8:** A oes gennych chi dystiolaeth o ffactorau neu nodweddion gwrthrychol a mesuradwy eraill a allai fod yn berthnasol i amodau trothwy categori 1?

**Cwestiwn 9:** A oes gennych chi dystiolaeth o ffactorau a allai effeithio ar sut mae cynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant yn cael ei ledaenu ar wasanaethau U2U?

- A oes swyddogaethau penodol sy'n chwarae rôl allweddol o ran galluogi cynnwys sy'n anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant i gael ei ledaenu ar wasanaethau U2U?
- A oes gennych chi dystiolaeth yn ymwneud â'r berthynas rhwng niferoedd defnyddwyr, swyddogaethau a sut mae cynnwys anghyfreithlon neu gynnwys sy'n niweidiol i blant yn cael ei ledaenu ar wasanaethau U2U?

**Cwestiwn 10:** A oes gennych chi dystiolaeth o nodweddion gwrthrychol a mesuradwy eraill a allai fod yn berthnasol i amodau trothwy categori 2B?

## Ymchwil – gwasanaethau chwilio

- 4.9 Ar gyfer categori 2A, mae'n rhaid i Ofcom gynnal ymchwil i'r agweddau canlynol ar beiriant chwilio gwasanaethau chwilio a gwasanaethau cyfun rheoledig:

- i) pa mor gyffredin ydy cynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon a chynnwys chwilio sy'n niweidiol i blant;

<sup>27</sup> Mae diffiniad 'swyddogaeth' yng nghymal 204 y Bil Diogelwch Ar-lein.

- ii) nifer defnyddwyr y peiriant chwilio; a
- iii) nodweddion neu ffactorau eraill y mae Ofcom yn ystyried eu bod yn berthnasol wrth fynd ati i nodi amodau trothwy categori 2A

Rydym yn croesawu ymatebion gan bob rhanddeiliaid sydd â gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol. Rydym yn gofyn i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein ymateb mewn perthynas â'u gwasanaeth(au) eu hunain, lle bo hynny'n briodol.

**Cwestiwn 11:** A oes gennych chi dystiolaeth o faterion sy'n effeithio ar ba mor gyffredin yw cynnwys a fydd (ar ôl i'r Bil ddod i rym) yn cyfrif fel cynnwys chwilio anghyfreithlon neu sy'n niweidiol i blant ar wasanaethau chwilio penodol neu fathau o wasanaeth chwilio? *Er enghraifft, gallai gyfeirio at gyfran y cynnwys sy'n dod i'r amlwg yn erbyn pob term chwilio sy'n anghyfreithlon neu sy'n niweidiol i blant, ond rydym yn croesawu awgrymiadau ynghylch diffiniadau ychwanegol.*

- A oes gennych chi dystiolaeth yn ymwneud â mesur pa mor gyffredin yw cynnwys sy'n anghyfreithlon neu sy'n niweidiol i blant ar wasanaethau chwilio?

**Cwestiwn 12:** A oes gennych chi dystiolaeth yn ymwneud â nifer defnyddwyr ar wasanaethau chwilio a lefel y risg o niwed i unigolion o gynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon neu sy'n niweidiol i blant?

- A oes gennych chi dystiolaeth ynghylch y berthynas rhwng niferoedd defnyddwyr ar wasanaethau chwilio a pha mor gyffredin yw cynnwys chwilio sy'n anghyfreithlon neu sy'n niweidiol i blant?

**Cwestiwn 13:** A oes gennych chi dystiolaeth o nodweddion gwrthrychol a mesuradwy eraill a allai fod yn berthnasol i amodau trothwy categori 2A?



# A1 Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

## Sut mae ymateb

---

- A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 12 Medi 2023.
- A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn [https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/INSERT\\_URL](https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/INSERT_URL). Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i [os-cfe@ofcom.org.uk](mailto:os-cfe@ofcom.org.uk), fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl y cais am dystiolaeth wedi'i farcio arnynt:
- Cais am Dystiolaeth - Diogelwch Ar-lein  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
Llundain SE1 9HA
- A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
  - gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn y cais am dystiolaeth os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen cais am dystiolaeth. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Adran 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm Diogelwch Ar-lein drwy anfon neges e-bost at [os-cfe@ofcom.org.uk](mailto:os-cfe@ofcom.org.uk).

## Cyfrinachedd

---

- A1.11 Mae ceisiadau am dystiolaeth yn fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i gyfnod y cais am dystiolaeth ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.
- A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan –
- A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

---

- A1.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

---

- A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i gais am dystiolaeth. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad A2.
- A1.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein ceisiadau am dystiolaeth neu ymgynghoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn [consult@ofcom.org.uk](mailto:consult@ofcom.org.uk). Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:
- A1.20 Corporation Secretary  
Ofcom  
Riverside House  
2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA

E-bost: [corporationsecretary@ofcom.org.uk](mailto:corporationsecretary@ofcom.org.uk)

# A2 Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

---

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

---

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

---

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3 Dalen cyflwyno cais am dystiolaeth

## Manylion sylfaenol

---

Teitl y cais am dystiolaeth:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

---

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

- Dim
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd
- Ymateb cyfan
- Sefydliad
- Rhan o'r ymateb

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----  
-----

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n gadael i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol neu'n rhoi'r gallu i'ch adnabod)?

Ydw       Nac ydw

## Datganiad

---

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw      Llofnod (os darperir copi caled)